

# Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant:

## Gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion

Nicola Sharp-Jeffs, Maddy Coy a Liz Kelly

Mawrth 2017

Mae'r papur briffio hwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn ysgolion. Mae'n dwyn ynghyd negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) gyda goblygiadau i ymarfer a dyrannu cyllidebau ysgolion. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â chanllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol. [\[Dolenni i'r Canllawiau Saesneg a'r Canllawiau Cymraeg\]](#)

## Negeseuon allweddol

- Gall camfanteisio rhywiol ddigwydd i bobl ifanc o bob cefndir. Er mai merched ifanc yw'r rhan fwyaf sy'n dioddef, mae bechgyn a dynion ifanc hefyd yn profi camfanteisio.
- Gall rhai pobl ifanc fod yn fwy agored i'r broblem – rhai sydd wedi cael eu cam-drin eisoes, sy'n ddigartref, yn camddefnyddio alcohol a chyffuriau, sydd ag anabledd, mewn gofal, i mewn ac allan o addysg, sydd wedi rhedeg i ffwrdd / wedi mynd ar goll o gartref neu ofal, neu sy'n gysylltiedig â gangiau.
- Dylai pob ysgol (gan gynnwys lleoliadau addysg amgen, fel Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Ysgolion Arhosiad Byr a hyfforddiant ôl-16 oed) dybio bod CSE yn broblem sydd angen sylw.
- Dylid datblygu amgylchedd addysgol gyda dull 'ysgol gyfan' sy'n rhoi sylw i gydraddoldeb rhywiol, cydsyniad rhywiol a pherthnasoedd sy'n seiliedig ar barch.
- Mae pob ysgol mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflwyno gwybodaeth i fyfyrwyr am CSE trwy addysg ataliol sy'n cyflwyno gwybodaeth ac sy'n herio agweddau.
- Dylai staff yng nghymuned yr ysgol gael eu hyfforddi i adnabod 'arwyddion rhybudd' posibl o CSE a bod yn ddigon hyderus i gychwyn sgyrsiau sy'n seiliedig ar eu pryderon
- Mae cysylltiadau amlasant aethol yn golygu y gall ysgolion fod yn rhan o ddatblygiad rhwydwaith cymuned amddiffynol sy'n dwyn cyflawnwyr i gyfrif.

## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

'Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant lle mae unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais ar anghydbwysedd mewn pŵer i orfodi, i ddyylanwadu neu i dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbed y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau a/neu (b) am fantais ariannol neu statws uwch y cyflawnwr neu'r hwylusydd.'

[\(Diffiniad newydd Lloegr 2017\)](#)

Nid oes dim ond un ffordd o gyflawni CSE (Child Exploitation and Online Protection Centre, 2011; Berelowitz et al. 2012; Gohir, 2013; Research in Practice and University of Greenwich, 2015). Mae meithrin perthynas i bwrpas rhyw'n gyffredin mewn rhai ffuriau o CSE, ond nid yw'n bresennol bob tro (Beckett, 2011; Melrose, 2013). Gall gorgyffwrdd ddigwydd rhwng camfanteisio ar-lein ac all-lein (Fox a Kalkan, 2016). Os yw'n ymddangos bod plant a phobl ifanc yn cydweithredu ni ellir cymryd hynny fel cydsyniad: maent o dan oed yng ngolwg y gyfraith ac yn agored i sawl math o orfodaeth a rheolaeth. Mae cam-drin pŵer o'r fath yn debyg i'r hyn a welir mewn traïs domestig a gall olygu nad yw plant a phobl ifanc yn gweld bod yr hyn sy'n digwydd iddynt yn fath o gam-drin.

Er bod dystiolaeth yr holl ymchwil hyd yma'n dangos mai merched a menywod ifanc yw mwyafrif y dioddefwyr, gall camfanteisio ddigwydd i fechgyn a dynion ifanc hefyd. Yr oedran cyfartalog pan fydd pryderon yn amlygu eu hunain gyntaf yw 12 i 15 oed, er bod astudiaethau diweddar yn dangos nifer cynyddol o atgyfeiriadau ymhliith rhai 8 i 11 oed, yn enwedig yn

achos camfanteisio ar-lein (Yr Adran Addysg, 2017). Gwyddom lai am y camfanteisio ar rai o Gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) a Chymunedau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) (Ward a Patel, 2006; Gohir, 2013; Coy, 2016a; Sharp, 2013; Fox, 2016).

Nid oes y fath beth â dioddefwr ‘nodwediadol’. Wedi dweud hynny, gall rhai pobl ifanc fod yn fwy agored nag eraill, ac amlygwyd ystod o ddangosyddion y dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys: cam-drin blaenorol yn y teulu; amddifadedd; digartrefedd; camddefnyddio sylweddau; anabledd; bod mewn gofal; rhedeg i ffwrdd / mynd ar goll; cysylltiadau â gangiau (Beckett et al. 2013; Brown et al. 2016; Coy, 2009; Franklin, Raws a Smeaton, 2015; Harris a Robinson, 2007; Klatt et al. 2014; Jago et al. 2011; Smeaton, 2013a). Ni wyddys a yw'r rhain yn berthnasol hefyd yn achos pobl ifanc pan fydd camfanteisio'n dechrau neu'n digwydd yn gyfan gwbl ar-lein, er ei bod yn ymddangos bod rhai ffactorau'n bresennol yn y ddau gyd-destun (Whittle et al. 2013). Mae'n bwysig cofio nad yw dangosyddion yn dystiolaeth bod camfanteisio rhywiol wedi digwydd. Maent i gyd yn awgrymu bod angen i weithwyr proffesiynol ddefnyddio'u chwilfrydedd proffesiynol a'u crebwyl i edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn achos pob person ifanc.

## Dull ‘ysgol gyfan’

Mae creu amgylchedd addysgol lle mae ‘dull ysgol gyfan’ i roi sylw i gydraddoldeb rhywiol, cydsyniad rhywiol a pherthnasoedd sy'n seiliedig ar barch yn hanfodol i ymateb i drais a chandrin, gan gynnwys CSE (Womankind, 2010; Coy et al. 2013). Mae'r cwricwlwm, polisiau'r ysgol, cymorth bugelliol ac ethos yr ysgol i gyd yn cyfrannu at amgylcheddau sy'n galluogi neu sy'n herio arferion camfanteisiol a'r agweddau sy'n eu goddef (Chakravorty, 2016).

## Atal CSE trwy'r cwricwlwm

Dylai gwaith i atal CSE fod yn digwydd mewn ysgolion annibynnol ac ysgolion a gynhelir, yn ogystal ag ysgolion y wladwriaeth, ysgolion rhydd ac academiâu (pan yn briodol) a lleoliadau addysgol amgen, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion, Ysgolion Arhosiad Byr, colegau a hyfforddiant ôl-16 oed, gan gynnwys hyfforddiant a ddarperir gan ddarparwyr annibynnol.

Mae ysgolion mewn sefyllfa ddelfrydol i gyflwyno gwybodaeth i ddisgyblion am CSE ac mae nifer o adnoddau ar gael i wneud hynny. Mae'n bwysig bod y gwaith hwn hefyd yn herio agweddau ac yn helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau emosiynol a chymdeithasol (End Violence Against Women Coalition, 2011; Cymdeithas ABGI, 2016). Dylai cyfleoedd i ddysgu am gamfanteisio rhywiol fod ar gael mewn ffurfiâu oed briodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Gall sgyrsiau agored o fewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth helpu plant i adnabod ymddygiad camdriniol posibl, dod i wybod pwy yw'r oedolion y gallant ymddiried ynddynt i siarad ac i gynnig gwybodaeth am wasanaethau cymorth (Pearce, 2009).

**“Dylent ddangos fideos mewn ysgolion. Ddysgais i ddim am feithrin perthnasoedd amhriodol – dyw'r peth ddim yn gwneud synnwyr”<sup>1</sup>**

Dylai SRE gynnwys cydsyniad rhywiol, perthnasoedd, normau rhywedd a rhywioldeb, gan gynnwys gwneud cyrff merched ifanc yn wrthrychau rhyw, a safonau gwrywdod – yr hyn mae'n ei olygu i fod yn fachgen neu ddyn ifanc (Brayley et al. 2014; Coy, 2008, 2009, 2016b; Coy et al. 2013; Gohir, 2013; Marshall, 2014). O gofio amlygrwydd negeseuon testun rhywiol a mynediad

<sup>1</sup> Merch, 15 oed yn Franklin et

pobl ifanc at bornograffi ar-lein, mae angen creu cyfleoedd i drafod portreadau o ryw a sut y mae'r rhain yn seiliedig ar rywedd (Coy et al. 2013; Stanley et al. 2016).

Mae pobl ifanc yn llawer llai tebygol o gofio gwybodaeth o un sesiwn, felly dylid atgyfnerthu negeseuon (Skidmore, 2007; Coy, 2016b). Er bod amser cwricwlwm ar gyfer gwersi ABGI a SRE yn hanfodol i gynnig rhaglen ddatblygiadol gydlynus, gellir cyfoethogi dysgu hefyd trwy integreiddio CSE o fewn y cwricwlwm ehangach, e.e. trafodaethau ar ddiogelwch digidol/technolegol yn ystod gwersi cyfrifiaduron (Wurtele a Kenny, 2016). Mae rhoi sylw i ffurfiau rhithiol o gam-drin a chamfanteisio'n adlewyrchu'r realiti i bobl ifanc, ac yn cydnabod sut maent yn cymdeithasu ac yn cyfathrebu (Beckett et al. 2013; Smeaton 2013b).

Bydd pobl ifanc ag anableddau ac anawsterau dysgu'n elwa ar wybodaeth wedi'i llunio'n bwrpasol ar risgiau, strategaethau diogelwch ac adeiladu sgiliau yng nghyd-destun bywyd pob dydd (Barnardos, 2012; Chakravorty, 2016). Mae hyn yn bwysig gan fod anawsterau corfforol neu ddysgu a/neu anabledd yn gallu gwneud pobl ifanc yn fwy tebygol o gael eu targedu gan gamfanteiswyr (Berelowitz et al. 2012; Cockbain et al. 2014; Jago et al. 2011; Smeaton, 2013a).

Ymddengys fod hygrededd ac arddull cyflwyno hwyluswyr hefyd yn arwyddocaol (Beckett et al. 2013; Coy, 2016b), sy'n awgrymu y gallai hyfforddiant mewn swydd arbenigol i athrawon fod yn allweddol. Efallai yr hoffai ysgolion hefyd ystyried cyflwyno sesiynau ataliol mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol lleol. Efallai y byddai'n well gan rai pobl ifanc pe bai'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan rywun o'r tu allan i'r ysgol, gan y byddant o bosibl yn teimlo eu bod yn fwy parod i drafod materion ac i ofyn cwestiynau iddynt (McNeish a Scott 2015). Bydd dull o'r fath yn gynaliadwy os yw'n cynnig cyfle i raeadru gwybodaeth arbenigol i athrawon.

## Amgylchedd dysgu saff a diogel

Dylid cyfuno cwricwlwm ataliol ag amgylchedd saff a diogel sy'n hyrwyddo perthnasoedd positif sy'n seiliedig ar barch rhwng cymheiriaid, rhwng myfyrwyr a staff, ac sy'n cynnwys ymgysylltu ehangach â rhieni/gofalwyr (Beckett et al. 2013).

Er bod amgylchedd yr ysgol yn gallu bod yn ofod positif i bobl ifanc, gall hefyd fod yn un lle gallant brofi camfanteisio rhywiol (Berelowitz et al. 2015; Firmin, 2013). Gall camfanteisio rhywiol hefyd gynnwys cymheiriad mewn ffyrdd cymhleth, fel hwyluswyr, camdriniwyr neu dystion (Firmin, 2011; Beckett et al. 2013). Gall meithrin perthynas amhriodol a chamfanteisio rhywiol ddigwydd yn ystod diwrnod yr ysgol, gan gynnwys cymheiriad sy'n gysylltiedig â gangiau (Factor a Pitts, 2015; Gilligan, 2016). Gall rhai myfyrwyr gyflwyno pobl ifanc eraill i gamfanteiswyr (Berelowitz et al. 2012; Casey, 2015; Gohir, 2013). Gall cyfryngau cymdeithasol fod yn gyfrwng i ledaenu sibrydion a delweddau rhwng grwpiau o gymheiriad fel y gall effaith CSE sy'n digwydd y tu allan i'r ysgol ddychwelyd yn ôl yno (Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd, 2016).

Dylai cymuned pob ysgol dybio bod CSE yn broblem. Yn ychwanegol at addysgu pobl ifanc am CSE, mae angen i ysgolion ganfod a helpu pobl ifanc sy'n cael eu heffeithio. Dylid gwneud cysylltiadau â pholisïau perthnasol yr ysgol, gan gynnwys y rhai ar fwlio, trais rhywiol ac aflonyddu a chydraddoldeb. Efallai na fydd pobl ifanc yn gweld eu hunain fel dioddefwyr a byddant yn credu eu bod mewn cariad (Pearce, 2009). Dylid felly fabwysiadu ymagwedd ragweithiol i ganfod dioddefwyr, gan wahaniaethu rhwng ymddygiad sy'n tarfu ar eraill ac arwyddion cynnar o gamfanteisio.

“Rhaid cydnabod ei bod yn anodd iawn i ni weld ein hunain fel dioddefwyr ac felly i gael unrhyw syniad o'r help sydd ei angen arnom. Pan fyddwn yn arddangos ymddygiad anodd a heriol, rydym am i weithwyr proffesiynol o'r holl asiantaethau gael mwy o ymwybyddiaeth o hyn, yn enwedig ysgolion. Peidiwch â'n gwahardd dim ond am beidio gwisgo'r wisg gywir – helpwch ni os ydym yn cael ein bwlio. Rydym hefyd am i ysgolion wybod sut i weithio'n well â rhieni, yn enwedig pan fyddwch yn cael eich bwlio neu'n cael anhawster gwneud ffrindiau.”<sup>2</sup>

Gellir gwneud staff ysgolion yn ymwybodol o'r posibilrwydd o CSE os yw pobl ifanc yn ynysu eu hunain oddi wrth eu teulu a/neu rwydweithiau cymheiriad; os oes ceir neu dacsis yn aros amdanynt y tu allan i'r ysgol a'u bod yn cael anrhegion a ffonau symudol (Barnardo's, 2012; Casey, 2015). Gallai arwyddion eraill o gamfanteisio ymhllith merched ifanc gynnwys delwedd fwy rhywiol ohonynt eu hunain, fel eu dillad, gwallt a cholur (Coy, 2016a).

Mae gweithwyr proffesiynol yng nghymuned yr ysgol mewn sefyllfa dda i ganfod achosion pryder yn gynnar, gan eu bod yn sylwi ar ymddygiad myfyrwyr o ddydd i ddydd a gallant sylwi ar newidiadau. Yn ogystal â staff addysgu, gallai'r rhain gynnwys: nyrssys ysgol; mentoriaid dysgu; gweithwyr cymorth teulu a staff ategol eraill fel staff arlwyd. Gall hyfforddiant ar y cyd ar draws cymuned yr ysgol helpu i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau, ac arferion gweithio mwy effeithiol i ganfod ac ymyrryd mewn achosion o gamfanteisio rhywiol.

## Cynnig cymorth

Mae cysylltiadau penodol rhwng CSE ac addysg y dylai'r proffesiwn fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- triwantiaeth/bod yn absennol o'r ysgol;
- gwaharddiad dros dro/parhaol; a
- chyflawniad addysgol isel (Casey, 2015; Coy, 2009; Kramer a Berg, 2003; Scott a Skidmore, 2006).

Gall pobl ifanc sydd allan o'r ysgol/addysg yn hawdd iawn deimlo eu bod y tu allan i'r brif ffrwd gymdeithasol ac maent felly'n fwy tebygol o gael eu targedu gan oedolion a chymheiriad sydd am gamfanteisio arnynt (Nelson, 2016). Ar y llaw arall, mae cysylltiad â chymuned addysgol sefydlog yn warchodol (Kaestle, 2012) gan ei fod yn creu ymdeimlad o berthyn a sefydlogrwydd, ac mae'n cadarnhau eu ffydd ynddynt eu hunain.

Mae llawer o bobl ifanc sy'n profi camfanteisio rhywiol yn sôn am golli gobaith am y dyfodol, o deimlo eu bod yn ddiwerth ac yn methu meddwl am ffordd allan (Beckett et al. 2013; Coy, 2008; Gilligan, 2016). Gall cymorth i ailafael mewn addysg newid hyn mewn nifer o ffyrdd: gwneud ffrindiau newydd nad ydynt yn rhan o rwydweithiau camfanteisiol; (ail)ddarganfod sgiliau deallusol a chreadigol; sylweddoli bod modd cael breuddwydion a bod dyfodol gwahanol yn bosibl. Gall addysg hefyd wrthweithio yn erbyn effaith aflonyddgar cysylltiadau â gweithgarwch troseddol lle mae pobl ifanc yn rhoi dystiolaeth yn erbyn camfanteiswyr a chamdrinwyr (Beckett a Warrington, 2015).

2 Negeseun gan blant i weithwyr proffesiynol yn Myers and Carmi, 2016

Gall rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am CSE yn yr ysgol eu galluogi i ddechrau trafod â'u plant y tu allan i'r ysgol (Topping a Barron, 2009). Mae rhannu pryderon am bobl ifanc unigol a sicrhau bod rhieini'n cael help hefyd yn ffordd o ymgysylltu â rhieni/gofalwyr (Palmer a Jenkins, 2014). Ar yr un pryd, mae'n hanfodol penderfynu a yw'n ddiogel i gynnwys rhieni. Dylid bod yn ofalus wrth wneud hyn gan fod posibilrwydd y gallai rhai rhieni fod yn rhan o'r camfanteisio neu gam-drin (Itzin, 2001). Gall rhai pobl ifanc sy'n dioddef camfanteisio fod ar yr un pryd yn gweithio'u ffordd trwy gyd-destunau teuluol a chymunedol lle gallai datgelu gwybodaeth am eu camdriniaeth eu rhoi mewn perygl o fathau eraill o niwed, fel priodas o dan orfod a thrais ar sail 'anrhydedd' (Sharp-Jeffs, 2016). Mewn amgylchiadau o'r fath, gall ysgolion fod yn ofod diogel i weithio â phobl ifanc heb yn wybod i'r rhieni (Sharp-Jeffs, 2016).

## Gweithio amlasiantaethol

Gall ysgolion betruso cyn cynnwys partneriaid allanol mewn ymateb i CSE gan eu bod yn ofni niweidio enw da'r ysgol (Coy, 2016b; Gohir, 2013; Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, 2014). Er hynny, mae'n hanfodol eu bod yn gwneud cysylltiadau amlasiantaethol er mwyn bod yn rhan o ddatblygiad rhwydwaith cymunedol rhagweithiol (Nelson, 2016; Firmin, 2016).

Bydd yr aelod diogelu dynodedig ac aelodau allweddol eraill o'r staff fel nyrs yr ysgol yn aml yn rhan bwysig o rwydweithiau amlasiantaethol (Nelson, 2016; Firmin, 2016).

Bydd cyfathrebu ag asiantaethau eraill yn rhoi gwybodaeth strategol bwysig i'r ysgol, gan gynnwys dealltwriaeth o'r cyd-destun lleol (Bovarnick a Scott, 2016). Er enghraift, gellir rhannu mannau lle mae CSE yn fwy o broblem a gwybodaeth berthnasol ag asiantaethau eraill i godi ymwybyddiaeth ac i dargedu ymyriadau (Berelowitz et al. 2015). Gall staff ysgolion fod mewn sefyllfa well i ddeall arwyddocâd gwybodaeth sy'n dod i'w sylw.

Mae tueddiad mewn ymatebion i CSE i ganolbwytio ar y dioddefwr, gan eu cywilyddio ymhellach a gwneud y cyflawnwyr yn anweladwy (Gohir, 2013). Mae gweithio amlasiantaethol yn golygu y gall ysgolion gyfrannu at amharu ar gyflawnwyr – mae'r mwyafrif yn fechdyn a dynion. Gellir gwneud hyn trwy rannu gwybodaeth i ddatblygu 'proffiliau problem' rhanbarthol a gynhyrchrir gan ddadansoddwyr yr heddlu (Berelowitz et al. 2013). Gall gwybodaeth o'r fath gynnwys enwau – gan gynnwys ffugenwau, cyfeiriadau, ardaloedd problemus, rhifau ffonau symudol, rhifau ceir a gwybodaeth am y rôl a chwaraeir gan fusnesau lleol (Hughes a Thomas, 2016; Drew, 2016; Myers a Carmi, 2016; Nelson, 2016; Palmer a Jenkins, 2014; Pona, 2016).

Yn ogystal â chyfrannu at ymatebion strategol lleol i CSE trwy atal ac amddiffyn, gall ysgolion roi pobl ifanc mewn cysylltiad â gwasanaethau cymorth (Berelowitz et al. 2015). Gall gwersi ABGI a SRE gyfeirio at wasanaethau cymorth a rhoi i fyfyrwyr y strategaethau sydd eu hangen i ddod o hyd i gymorth iddynt hwy eu hunain neu i'w cymheiriad. Mae darparu gwasanaethau iechyd rhywiol, cwnsela a gwasanaethau CSE arbenigol mewn ysgolion yn ddull arall ac mae'n golygu bod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar gymorth na fyddai ar gael fel arall o bosibl y tu allan i oriau ysgol (Allnock et al. 2015). Dylid meithrin cysylltiadau hefyd â gwasanaethau cymorth perthnasol eraill gan gynnwys mudiadau Trais yn erbyn Menywod a Merched, Gwasanaethau lechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau ar gyfer plant ar goll sy'n cael eu harwain gan yr awdurdod lleol, yr heddlu neu'n wirfoddol.

O gofio'r cysylltiadau rhwng CSE a mynd ar goll, dylai fod gan ysgolion y gallu i gyflenwi data i awdurdodau lleol ar blant sy'n colli ysgol, plant sy'n absennol heb ganiatâd yn ogystal â phlant

sy'n cofrestru'n rheolaidd am ddiwrnod ond nad ydynt yn mynychu gwersi. Gellid croesgyfeirio hyn â data'r awdurdod lleol ar blant y dywedir sydd ar goll wrth yr heddlu er mwyn canfod plant a all fod angen ymyriad (All Party Parliamentary Group for Runaway and Missing Children and Adults, 2016; Gohir, 2013).

Mae'n amlwg bod ysgolion yn gwneud cyfraniad pwysig i amddiffyn plant a phobl ifanc pan fyddant yn defnyddio ac yn neilltuo adnoddau i fynd i'r afael â CSE (Casey, 2015 Coy, 2009; Kramer a Berg, 2003; Scott a Skidmore 2006).

## Negeseuon allweddol o ymchwil ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant – hefyd ar gael

- Yr Heddlu
- Comisiynu gwasanaethau'r heddlu'n strategol
- Gweithwyr cymdeithasol
- Comisiynu gwasanaethau plant yn strategol
- Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd
- Comisiynu gwasanaethau gofal iechyd
- Gweithio amlasantiaethol

## Cyfeiriadau

- Allnock, D., Sneddon, H. ac Ackerley, E. (2015) *Mapping therapeutic services for sexual abuse in the UK in 2015* Luton: University of Bedfordshire, International Centre
- All-Party Parliamentary Group (APPG) for Runaway and Missing Children and Adults (2016) *Inquiry into the safeguarding of 'absent' children 'It is good when someone cares'* London: The Children's Society/Missing People
- Aynsley, C. Hughes, T. a Girling, S (2013) 'Sexting in schools': advice and support around self-generated images: what to do and how to handle it Loughborough: Compass Community
- Barnardo's (2011) *Reducing the risk, cutting the cost: An assessment of the potential savings of Barnardo's interventions for young people who have been sexually exploited* Barkingside: Barnardo's
- Barnardo's (2012) *Cutting them free How is the UK progressing in protecting its children from sexual exploitation?* Barkingside: Barnardo's
- Beckett, H. (2011) *Not a World Away: The Sexual Exploitation of Children and Young People in Northern Ireland* Belfast: Barnardo's
- Beckett, H. gyda Brodie I., Factor F., Melrose M., Pearce J., Pitts J., Shuker L. a WarringtonC. (2013) 'It's Wrong...But You Get Used to It': A Qualitative Study of Gang-associated Sexual Violence and Exploitation Luton: University of Bedfordshire
- Beckett, H. a Warrington, C. (2015) *Making Justice Work: experiences of criminal justice for children and young people affected by sexual exploitation as victims and witnesses* Luton: University of Bedfordshire
- Beckett, H. Warrington, C., Ackerley, E. ac Allnock, D. (2015) *Children and young people's perspectives on the police's role in safeguarding: a report for Her Majesty's Inspectorate of Constabularies* Bedford: University of Bedfordshire
- Berelowitz, S., Firmin, C., Edwards, G. a Gulyurtlu, S. (2012) "I thought I was the only one. The only one in the world" interim report London: Office of the Children's Commissioner
- Berelowitz, S., Ritchie, G., Edwards, G., Cabrita Gulyurtlu, S. S. a Clifton, J. (2015) *If it's not better, it's not the end - Inquiry into child sexual exploitation in gangs and groups: One year on* London: Office of the Children's Commissioner
- Bovarnick, S. a Scott, S. (2016) *Child Sexual Exploitation Prevention Education: A Rapid Evidence Assessment* Luton: University of Bedfordshire
- Brayley, H., Cockbain, E. a Gibson, K. (2014) *Rapid evidence assessment – the sexual exploitation of boys and young men* Barkingside: University College London
- Brown, S., Brady, G., Franklin, A., Bradley, L., Kerrigan, N. a Sealey, C. (2016) *Child Sexual Abuse and Exploitation: Understanding Risk and Vulnerability* Coventry: Coventry University
- Casey, L. (2015) *Reflections on child sexual exploitation* London: : Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Chakravorty, P. (2016) *Key principles of effective prevention education* London: Cymdeithas ABGIn

Child Exploitation and Online Protection Centre (2011) *Scoping Report on Missing and Abducted Children* London: Child Exploitation and Online Protection Centre

Cockbain, E., Brayley, H. ac Ashby, M. (2014) *Not just a girl thing: A large scale comparison of male and female users of child sexual exploitation services in the UK* Location: University College London/Barnardo's/NatCen

Cossar, J., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Biggart, L. a Sharpe, D. (2013) *'It takes a lot to build trust': Recognition and telling: Developing earlier routes to help for children and young people* London: OCC

Coy, M. (2008) Young Women, Local Authority Care and Selling Sex *British Journal of Social Work* 38(7), 1408-1424

Coy, M. (2009) 'Moved Around Like Bags of Rubbish Nobody Wants' How Multiple Placement Moves Can Make Young Women Vulnerable to Sexual Exploitation *Child Abuse Review* 18(4): 254-266

Coy, M., Kelly, L., Elvines, F., Garner, M. a Kanyeredzi, A. (2013) "Sex without consent, I suppose that is rape": How young people in England understand sexual consent London: Office of the Children's Commissioner

Coy, M. (2016a) Joining the dots on sexual exploitation of children and women: A way forward for UK policy responses *Critical Social Policy Cyhoeddwyd ar-lein 5ed Mai*

Coy, M. (2016b) 'We don't get this at school: The Safe Choices Reaching Communities Project final evaluation report London: CWASU

Department for Education (2017) *Definition and a guide for practitioners, local leaders and decision makers working to protect children from child sexual exploitation* London: Department for Education

Dodsworth, J. a Larsson, B. (2014) *An examination of the perspectives and experiences of police officers working with children and young people at risk of, or involved in, child sexual exploitation* Norwich: Centre for Research on Children and Families, University of East Anglia

Drew, J. (2016) *An independent review of South Yorkshire Police's handling of child sexual exploitation, 1997-2016* Yorkshire: Drew Review

End Violence Against Women Coalition (2011) *A Different World is Possible: Promising Practices to Prevent Violence Against Women and Girls* London: End Violence Against Women Coalition

Factor, F. a Pitts, J. gyda Bateman, T. (2015) *Gang involved young people: Custody and beyond* London: Beyond Youth Custody

Firmin, C. (2011) *This is it. This is my life...The Female Voice in Violence Project Final report* London: Race on the Agenda

Firmin, C. (2013) Something old or something new? Do pre-existing conceptualisations of abuse enable a sufficient response to abuse in young people's relationships and peer groups in Melrose, M. a Pearce, J. (gol.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp. 96-109 Basingstoke: Palgrave Macmillan

Firmin, C. (2016) *A strategic needs assessment: interim report* Luton: University of Bedfordshire

- Fox, C. (2016) 'It's not on the radar' *The hidden diversity of children and young people at risk of sexual exploitation in England* Barkingside: Barnardo's
- Fox, C. a Kalkan, G. (2016) *Barnardo's Survey on Online Grooming* Barkingside: Barnardo's
- Franklin, A., Raws, P. a Smeaton, E. (2015) *Unprotected, overprotected: meeting the needs of young people with learning disabilities who experience, or are at risk of, sexual exploitation* Barkingside: Barnardo's
- Gilligan, P. (2016) Turning it around: what do young women say helps them to move on from child sexual exploitation? *Child Abuse Review* 25(2): 115-127
- Gohir, S. (2013) *Unheard voices: sexual exploitation of Asian girls and young women* London: Muslim Women's Network UK
- Hanson, E. (2016) *Exploring the relationship between neglect and child sexual exploitation: Evidence Scope 1* Totnes: Research in Practice
- Harris, J. a Robinson, B. (2007) *Tipping the Iceberg: A pan Sussex study of young people at risk of sexual exploitation and trafficking* Barkingside: Barnardo's
- Hickle, K. (2016) *A Trauma informed approach, child sexual exploitation and Related Vulnerabilities* Luton: University of Bedfordshire, International Centre
- Hughes, C. a Thomas. M. (2016) *You can trust me... Young people going missing and at risk of, or abused through, child sexual exploitation in North Wales* Barkingside: Barnardo's
- Itzin, C. (2001) Incest, Paedophilia, Pornography and Prostitution: Making Familial Males More Visible as the Abusers *Child Abuse Review* 10: 35-48
- Jago, S., Arocha, L., Brodie, I., Melrose, M., Pearce, J. a Warrington, C. (2011), *What's Going on to Safeguard Children and Young People from Sexual Exploitation? How Local Partnerships Respond to Child Sexual Exploitation* Luton: University of Bedfordshire
- Kaestle, C. E. (2012) Selling and buying sex: A longitudinal study of risk and protective factors in adolescence *Prevention Science* 13(3): 314–322
- Klatt, T., Cavner, D. ac Egan, V. (2014) Rationalising predictors of child sexual exploitation and sex trading *Child Abuse Neglect* 38(2): 252-260
- Kramer, L. A. a Berg, E. C. (2003) *A Survival Analysis of Timing of Entry into Prostitution: The Differential Impact of Race, Educational Level and Childhood/Adolescent Risk Factors* *Sociological Inquiry* 73(4): 511-528
- Leon, L. a Raws, P. (2016) *Boys don't cry: improving identification and disclosure of sexual exploitation among boys and young men trafficked to the UK* London: Children's Society
- Marshall, K. (2014) *Child sexual exploitation in Northern Ireland: Report of the Independent Inquiry* Belfast: Criminal Justice Inspection, Education and Training Inspectorate and Regulation and Quality Improvement Authority
- Martin, J. (2016) Child Sexual Abuse Images Online: Implications for Social Work Training and Practice *British Journal of Social Work* 46(2): 372-388
- McNeish, D. & Scott, S. (2015). *An Independent Evaluation of Rape Crisis Scotland's Sexual Violence Prevention Project* North Dalton: DMSS Research & Consultancy

Melrose, M. (2013) *Young People and Sexual Exploitation: A Critical Discourse Analysis* in Melrose, M. a Pearce, J. (eds.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp.9-22 Basingstoke: Palgrave Macmillan

Myers, J. a Carmi, E. (2016) *The Brooke serious case review into child sexual exploitation: identifying the strengths and gaps in the multi-agency responses to child sexual exploitation in order to learn and improve* Bristol: Bristol Safeguarding Children Board

Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (2014) *Ann Coffey MP's independent report: summary of findings and recommendations* London: Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant

Nelson, S. (2016) *Tackling Child Sexual Abuse: Radical Approaches to Prevention, Protection and Support* Bristol: Policy Press

Office for Standards in Education, Children's Services and Skills (2016) 'Time to listen' – a joined up response to child sexual exploitation and missing children London: Office for Standards in Education, Children's Services and Skills

Palmer, E. a Jenkins, P. (2014) *Parents as Partners in Safeguarding Children: an evaluation of Pace's work in four Lancashire Child Sexual Exploitation Teams* Leeds: Parents against child sexual exploitation (Pace)

Pearce, J. (2009) *Young People and Sexual Exploitation: It's not hidden, you just aren't looking* London: Routledge.

Pona, I. (2016) *Safeguarding children and young people who go missing in London* London: The Children's Society

PSHE Association (2016) *Key Principles of Effective Prevention Education* London: PSHE Association

Research in Practice and University of Greenwich (2015) *Working effectively to address Child Sexual Exploitation: A briefing* Totnes: Research in Practice

Scott, S. a Skidmore, P. (2006) *Reducing the Risk: Barnardo's support for sexually exploited young people* Barkingside: Barnardo's

Sharp, N. (2013) Missing from discourse: South Asian young women and sexual exploitation in Melrose, M. and Pearce, J. (eds.) *Critical Perspectives on Child Sexual Exploitation and Related Trafficking* pp. 96-109 Basingstoke: Palgrave Macmillan

Sharp, N. (2015) *Keeping it from the Community* Community Safety – Special Edition on Child Sexual Exploitation, Sexual Violence and Community Safety 14(1): 56-66

Sharp-Jeffs, N. (2016) *A lot going on: the links between going missing, forced marriage and child sexual exploitation* Luton: University of Bedfordshire, International Centre (traethawd ymchwili heb ei gyhoeddi)

Shuker, L. (2013) *Evaluation of Barnardo's Safe Accommodation Project for Sexually Exploited and Trafficked Young People* Luton: University of Bedfordshire

Skidmore, P. (2007) 'It could be anyone' Evaluation report of the London prevention education programme (child sexual exploitation) by Barnardo's Barkingside: Barnardo's

- Smeaton, E. (2013a) *Running from Hate to What You Think is Love: The Relationship between Running Away and Child Sexual Exploitation* Barkingside: Barnardo's and Paradigm Research
- Smeaton, E. (2013b) 'Tackling running away and child sexual exploitation: the role of education' in *Education Journal, Rhifyn* 176, tud 15-18
- Stanley, N., Barter, C., Wood, M. , Aghaie, N. , Larkins, C. Lanau, A. ac Överlien, C. (2016) Pornography, Sexual Coercion and Abuse and Sexting in Young People's Intimate Relationships: A European Study *Journal of Interpersonal Violence*: 1-26
- Topping, K. J. a Barron, I. G. (2009) School-based CSA prevention programs: a review of evidence *Review of Educational Research* 79: 431-463
- Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrywd (2016) *Sexting in Schools and Colleges: Responding to incidents and safeguarding young people* London: Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrywd.
- Ward, J. a Patel, N. (2006) Broadening the discussion on 'sexual exploitation': ethnicity, sexual exploitation and young people *Child Abuse Review* 15(5): 341-50
- Warrington, C. (2016) *Young person centred approaches in child sexual exploitation – promoting participation and building self-efficacy* Totnes: Research in Practice
- Whittle, H. C., Hamilton-Giachritsis, C., Beech, A. a Collings, G. (2013) *A Review of young people's vulnerabilities to online grooming Aggression and Violent Behavior*, 18, 135-146
- Womankind (2010) *Preventing Violence, Promoting Equality: A whole-school approach* London: Womankind
- Wurtele, S. K. a Kenny, M. C. (2016) Technology-Related Sexual Solicitation of Adolescents: A Review of Prevention Efforts *Child Abuse Review* 25: 332-344

## **Y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol**

[www.csacentre.org.uk](http://www.csacentre.org.uk)

©Mawrth 2017